DATGANIAD O FESURAU ARBENNIG: UDA
RHEOLIADAU'R FASNACH MEWN ANIFEILIAID A CHYNHYRCHION PERTHYNOL (CYMRU) 2011 (OS 2011/ 2379) (C. 252)

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd wedi cael gwybod bod presenoldeb ffliw adar pathogenig iawn wedi cael ei gadarnhau yn UDA. Mae hyn yn golygu bod perygl y bydd rhai anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid sy'n tarddu neu'n cael eu hanfon o UDA yn peri risg i iechyd pobl neu anifeiliaid.

O dan reoliad 29(1) o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion perthynol (Cymru) 2011[1], mae Gweinidogion Cymru yn datgan bod y mesurau arbennig canlynol yn angenrheidiol yng Nghymru er mwyn rheoli'r risg i iechyd pobl neu anifeiliaid:

Atal rhai anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid rhag dod i mewn i Gymru

1. Mae'r cynhyrchion canlynol sy'n tarddu neu'n cael eu hanfon o'r tiriogaethau neu'r parthau yn UDA a chanddynt y cod US-2, sy'n cael eu rhestru a'u disgrifio yng ngholofnau 1 a 2 o'r tabl yn yr Atodiad i'r Datganiad hwn, yn cael eu hatal rhag dod i mewn i Gymru:

a. dofednod brido sydd â thystysgrifau milfeddygol BPP, BPR a LT20 fel y nodir yng ngholofn 3 o'r tabl yn yr Atodiad;
b. Cywion dofednod blwydd oed sydd â thystysgrifau milfeddygol DOC a DOR fel y nodir yng ngholofn 3 o'r tabl yn yr Atodiad;
c. cig ffres sydd â thystysgrifau milfeddygol POU, RAT a WGM fel y nodir yng ngholofn 3 o'r tabl yn yr Atodiad;
d. dofednod i'w lladd sydd â thystysgrifau milfeddygol SRP ac SRA fel y nodir yng ngholofn 3 o'r tabl yn yr Atodiad;
e. wyau deor ar gyfer dofednod sydd â thystysgrif filfeddygol HER, a HEP fel y nodir yng ngholofn 3 o'r tabl yn yr Atodiad;
f. llai nag 20 uned o ddofednod sydd thystysgrif filfeddygol LT20 fel y nodir yng ngholofn 3 o'r tabl yn yr Atodiad
g. cynhyrchion cig sy'n deillio o brosesu cig dofednod neu gig adar hela gwyllt neu o brosesu cynhyrchion o'r fath ymhellach, nad ydynt yn destun triniaeth benodol B, C neu D fel y'u diffinnir yn Rhan 4 o Atodiad II i Benderfyniad yr UE a ddargedwir yn 2007/777/EC[2]
h. sgil-gynhyrchion anifeiliaid heb eu prosesu sy'n cynnwys cyrff neu rannau o ddofednod neu adar hela gwyllt, neu gynhyrchion sy'n dod o ddofednod, ratidau neu adar hela gwyllt;
i. cynhyrchion cyfansawdd sy'n cynnwys cynhyrchion cig sy'n deillio o brosesu cig dofednod neu adar hela gwyllt, neu o brosesu cynhyrchion o'r fath ymhellach, nad ydynt yn destun triniaeth benodol B, C neu D fel y'u diffinnir yn Rhan 4 o Atodiad II i Benderfyniad yr UE a ddargedwir 2007/777/EC.

2. Nid yw paragraffau 1(h) a 1(i) o'r datganiad hwn yn berthnasol i'r canlynol:

([1]) O.S. 2011/2379 (W.252). Cafodd Rheoliad 29 ei ddisodli gan O.S. 2020/44 (C. 5) a'i ddiwygio gan O.S. 2020/1612 (C. 337).
[2] EUD 2007/777

a. wyau penodedig sy'n rhydd rhag pathogenau o fewn ystyr Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn (EC) 798/2008; a
b. wyau fel y'u diffinnir ym mharagraff 5.1 o Atodiad 1 i Reoliad (EC) 853/2004 neu gynhyrchion wyau fel y'u diffinnir ym mharagraff 7.3 o'r Atodiad hwnnw i'r Rheoliad hwnnw.

3. Pan nodir dyddiadau yng ngholofn 6 o'r Atodiad i'r Datganiad hwn:

a. caniateir i gynhyrchion anifeiliaid o'r fath ddod i mewn i Gymru, gan gynnwys y rhai a gludir ar y môr mawr, os cawsant eu cynhyrchu cyn y dyddiad a nodir yng ngholofn 6 a'u mewnforio o fewn 90 diwrnod i'r dyddiad a nodir yng ngholofn 6.

Dehongli

4. Ym mharagraff 1 o'r Datganiad hwn:

a. mae gan "ddofednod" a "chig" yr un ystyr ag yn Erthygl 2 o Reoliad yr UE a ddargedwir 798/2008[3]
b. mae gan "gynhyrchion cig" yr un ystyr ag ym mharagraff 7.1 o Atodiad I i Reoliad yr UE a ddargedwir 853/2004[4]
c. mae gan "sgil-gynhyrchion anifeiliaid" yr un ystyr ag yn Erthygl 3 o Reoliad yr UE a ddargedwir 1069/2009[5]
d. mae gan "gynhyrchion cyfansawdd" yr un ystyr ag yn Erthygl 2 o Benderfyniad yr UE a ddargedwir 2007/275/EC[6]

Dyddiad dod i rym a hyd y mesurau arbennig

5. Mae'r mesurau arbennig yn y Datganiad hwn yn berthnasol o ddechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y gwneir y Datganiad hwn. nes i'r Datganiad hwn gael ei ddirymu neu ei ddiwygio drwy ddatganiad pellach.

Y dyddiad y gwnaed y Datganiad: 15:30 25/03/2022

Gavin Watkins, Dirprwy Brif Swyddog Milfeddygol Cymru o dan awdurdod y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru

Mae mewnforio anifeiliaid neu gynhyrchion anifeiliaid yn groes i'r Datganiad hwn yn drosedd o dan Reoliad 29(1) o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011.

[3] EUR 798/2008.
[4] EUR 853/2004.
[5] EUR 1069/2009.
[6] EUD 2007/275.

Atodiad

Cod y diriogaeth neu'r parth	Disgrifiad o'r diriogaeth neu'r parth	Tystysgrif filfeddygol		Amodau penodol	Dyddiad cau
		Model(au)	Gwarantau ychwanegol		
1	2	3	4	5	6
US-0	Y wlad gyfan	EP, E			
US-1	Gwlad gyfan yr Unol Daleithiau ac eithrio ardal US-2	WGM	VIII		
		POU, RAT		N	
		BPP, BPR, DOC, DOR, HEP, HER, SRP, SRA, LT20			
US-2	Yr ardal o'r Unol Daleithiau sy'n cyfateb i:				
US-2.4	Tiriogaeth yr Unol Daleithiau sy'n cyfateb i Dalaith Indiana â Chyfesurynnau Daearyddol Dubois-01 Lled 38.27509, Hyd -86.849 yn Swydd Dubois a'r parth rheoli 10km o amgylch y cyfesurynnau uchod	WGM		P2	07.02.2022
		POU, RAT		N P2	07.02.2022
		BPR, BPP, DOC, DOR, HEP, HER, SRP, SRA, LT20			07.02.2022
US-2.5	Tiriogaeth yr Unol Daleithiau sy'n cyfateb i Dalaith Indiana â Chyfesurynnau Daearyddol Dubois-02 Lled 38.28256, Hyd -86.87607 yn Swydd Dubois a'r parth rheoli	WGM		P2	15.02.2020
		POU, RAT		N P2	15.02.2020
		BPR, BPP, DOC, DOR, HEP, HER,			15.02.2020

	10km o amgylch y cyfesurynnau uchod	SRP, SRA, LT20			
US-2.6	Tiriogaeth yr Unol Daleithiau sy'n cyfateb i Dalaith Kentucky â Chyfesurynnau Daearyddol Ke FG Hyd -88.95088, FG Lled 36.50836 ar gyfer safleoedd yn Swydd Fulton, Kentucky	WGM		P2	12.02.2022
		POU, RAT		N P2	12.02.2022
		BPR, BPP, DOC, DOR, HEP, HER, SRP, SRA, LT20			12.02.2022
US-2.7	Tiriogaeth yr Unol Daleithiau sy'n cyfateb i Dalaith Kentucky â Chyfesurynnau Daearyddol FG Hyd -87.51784, FG Lled 37.53775 ar gyfer y safleoedd yn Swydd Webster, Kentucky a'r parth rheoli 10km o amgylch y cyfesurynnau uchod	WGM		P2	15.02.2022
		POU, RAT		N P2	15.02.2022
		BPR, BPP, DOC, DOR, HEP, HER, SRP, SRA, LT20			15.02.2022
US-2.8	Tiriogaeth yr Unol Daleithiau sy'n cyfateb i Dalaith Indiana â Chyfesurynnau Daearyddol Dubois-03 Lled 38.96229, Hyd -87.03621 yn Swydd Dubois a'r parth rheoli 10km o amgylch y cyfesurynnau uchod	WGM		P2	24.02.2022
		POU, RAT		N P2	24.02.2022
		BPR, BPP, DOC, DOR, HEP, HER, SRP, SRA, LT20			24.02.2022
US.2.9	Tiriogaeth yr Unol Daleithiau sy'n cyfateb i Dalaith Delaware â Chyfesurynnau Daearyddol Lled 39.73 Hyd -75.509 yn Swydd New Castle a'r parth rheoli 10km o amgylch y cyfesurynnau uchod	WGM		P2	20.02.2022
		POU, RAT		N P2	20.02.2022
		BPR, BPP, DOC, DOR, HEP, HER, SRP, SRA, LT20			20.02.2022

Mae gan y geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn yr Atodiad hwn yr un ystyr ag yn Rheoliad yr UE a ddargedwir 798/2008[7].

[7] EUR 798/2008.